Department for Environment Food & Rural Affairs

# Diwygio Cewyll

## Ymgynghoriad ar y cynnig i wahardd cadw ieir dodwy, cywennod ac ieir bridio mewn cewyll

12 Ionawr 2026

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs

Adran yr Amgylchedd, Amaeth a Materion Gwledig (DEFRA) ydym ni. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn Laying-Hen-Cage-Reform@defra.gov.uk.

## Cynnwys

Rhan 1 - Cyflwyniad ....................................................................................... 4

Cwmpas ....................................................................................... 6

Cynulleidfa ....................................................................................... 6

Ymateb i’r ymgynghoriad ....................................................................................... 7

Ar ôl yr ymgynghoriad ....................................................................................... 7

Rhan 2 – Yr Ymgynghoriad ....................................................................................... 9

Y Cynnig: ....................................................................................... 9

Effaith y cynnig ....................................................................................... 10

Cwestiynau'r ymgynghoriad ....................................................................................... 11

Cyfrinachedd a Diogelu Data ....................................................................................... 11

Amdanoch chi neu eich sefydliad ....................................................................................... 11

Lles anifeiliaid ....................................................................................... 13

Cynnig polisi ....................................................................................... 13

Cwestiynau dadansoddol ....................................................................................... 15

# Rhan 1 - Cyflwyniad

Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi ymrwymo i les anifeiliaid ym mhob cyfnod o fywyd. Rydym am adeiladu ar ein record ardderchog o ran iechyd a lles anifeiliaid, a'i chynnal.

Mae hwn yn ymgynghoriad ar y cyd ar gynigion ar gyfer diwygiadau lles rheoleiddiol i wahardd y defnydd o gewyll yn y sector ieir dodwy, ac mae'n cael ei gyhoeddi gan DEFRA ar ran Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Cynhaliodd Llywodraeth yr Alban eu hymgynghoriad eu hunain ym mis Ebrill 2024 ac, ers hynny, maent wedi cadarnhau eu bod am gydweithio ar ddiwygio cewyll ledled y DU.

Yn Lloegr, mae'r ymgyrch i sicrhau safonau uwch ar gyfer anifeiliaid fferm yn cael ei chyflawni drwy'r Animal Health & Welfare Pathway. Mae'r llwybr yn rhoi cymorth ariannol gwirfoddol i geidwaid dofednod, moch, defaid a gwartheg cymwys, er mwyn gwella iechyd, lles a chynhyrchiant eu hanifeiliaid yn barhaus, gan gynnwys cefnogi ffermwyr i bontio oddi wrth ddefnyddio cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi. Hyd yn hyn, mae ceidwaid dofednod cymwys wedi gallu cyrchu grantiau sy'n cyd-ariannu pryniannau offer a thechnoleg newydd, ochr yn ochr â grant i ddiweddaru llety presennol, neu adeiladu llety newydd, heb gewyll.

Yn yr un modd, yng Nghymru, mae gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy iechyd a lles anifeiliaid fel elfen allweddol. Bydd ffermwyr yn derbyn arian cyhoeddus i gyrraedd safonau uwch o iechyd a lles anifeiliaid.

Mae The Welfare of Farmed Animals (England) Regulations 2007, Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, The Welfare of Farmed Animals (Scotland) Regulations 2010 a The Welfare of Farmed Animals Regulations (Northern Ireland) 2012 yn pennu amodau manwl ar gyfer cadw anifeiliaid a ffermir[1] ac, yn fwy penodol, pob iâr ddodwy[2].

Ym 1999, gwaharddwyd cewyll 'batri' confensiynol[3] ar gyfer ieir dodwy (ar gyfer ceidwaid â 350 neu fwy o adar) ledled yr Undeb Ewropeaidd (UE), gan gynnwys yn y Deyrnas Unedig (DU), ond gyda chyfnod pontio o 12 mlynedd hyd at 1 Ionawr 2012 cyn i'r gwaharddiad ddod i rym yn llawn. Oherwydd eu maint bychan (arwynebedd o 550cm$^2$ - llai na darn o bapur A4), ac amgylchedd diffrwyth heb unrhyw wasarn, clwydi nac ardal nythu ar wahân neu o'r neilltu, roedd cewyll 'batri' confensiynol yn peryglu lles ieir dodwy yn ddifrifol. Fodd

---

[1] Mae'r Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir yn diffinio 'anifail a ffermir' fel anifail sy'n cael ei fridio neu ei gadw at ddibenion cynhyrchu bwyd, gwlân neu groen, neu at ddibenion ffermio eraill, ond heb gynnwys -
(a) pysgod, ymlusgiaid neu amffibiaid; (b) anifeiliaid sydd wedi eu bridio at ddiben cael eu defnyddio mewn cystadlaethau, sioeau neu ddigwyddiadau, neu weithgaredd diwylliannol neu chwaraeon; (c) anifail arbrofol neu anifail labordy; neu (ch) anifail sy'n byw yn y gwyllt.

[2] Mae'r term 'iâr ddodwy' yn golygu iâr o'r rhywogaeth *Gallus gallus* sydd wedi cyrraedd aeddfedrwydd dodwy ac a gedwir ar gyfer cynhyrchu wyau na fwriedir iddynt ddeor.

[3] Disgrifir cewyll 'batri' confensiynol yn The Welfare of Farmed Animals (England) Regulations 2007 (legislation.gov.uk) a deddfwriaeth gyfatebol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

bynnag, roedd y gwaharddiad ar gewyll 'batri' confensiynol yn targedu cynhyrchwyr ar raddfa fasnachol, ac felly cafodd ceidwaid â llai na 350 o ieir dodwy eu heithrio o ddeddfwriaeth genedlaethol sy'n gwahardd cewyll 'batri' confensiynol.

Ar hyn o bryd, mae pedwar math gwahanol o systemau cynhyrchu ar gyfer ceidwaid sydd â 350 neu fwy o ieir dodwy: cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi[4] (dan do), ysgubor (dan do), maes, ac organig. Mae cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi yn llawer mwy na chewyll 'batri' confensiynol, gyda 40-80 o adar ym mhob cawell fel arfer. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt gael ardaloedd nythu, gwasarn a chlwydi ar wahân. Mae cywennod[5] sy'n cael eu cadw mewn systemau cewyll fel oedolion yn cael eu magu mewn cewyll i sicrhau bod y ddau amgylchedd yn cael eu paru cyn belled ag y bo modd i leihau straen a'r tebygolrwydd o bigo niweidiol.

Er bod cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi yn sylweddol well o ran llesiant na chewyll 'batri' confensiynol, nid ydynt yn darparu'n llawn ar gyfer anghenion corfforol ac ymddygiadol yr adar. Nid oes gan ieir dodwy mewn cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ryddid llwyr i fynegi ymddygiad normal, un o'r Pum Rhyddid a ddatblygwyd gan y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm (y Pwyllgor Lles Anifeiliaid bellach). Mae system cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi yn cyfyngu ar ddewis iâr, yn atal mynediad i'r ddaear a lefelau eraill, ac yn cyfyngu ar y gallu i redeg, curo adenydd, ymolchi yn y llwch a fforio.

Mae ein cynnig i wahardd cewyll yn cynnwys defnyddio llety cyfun (‘*combi*’). Mae llety *combi* yn system aml-haen sy'n caniatáu i adar grwydro pan fydd y drysau'n cael eu hagor, ond mae'n system gawell pan fydd y drysau'n cael eu cau ac felly'n cyfyngu ar yr adar. Ni chaniateir y systemau hyn eisoes o dan god ymarfer y diwydiant wyau (*The British Lion Code of Practice*). Er bod aelodaeth yn wirfoddol, mae dros 90% o wyau'r DU yn cael eu cynhyrchu yn unol â’r cod ymarfer ar hyn o bryd, ac mae'r 'cod' yn cwmpasu'r gadwyn gynhyrchu gyfan.

Nid yw ieir bridio a cywennod, ar hyn o bryd o fewn cwmpas y gofynion cewyll yn The Welfare of Farmed Animals (England) Regulations 2007, a'r hyn sy'n cyfateb iddynt yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. O dan reolau cynlluniau gwarant ffermydd gwirfoddol, ni chaniateir i gynhyrchwyr gadw ieir bridio mewn cewyll. O ganlyniad, rydym yn tybio mai bach iawn fydd effaith gwaharddiad ar gewyll ar y cynhyrchwyr ieir bridio.

Wrth ystyried y ffordd orau o wella lles ieir dodwy, cywennod ac ieir bridio (mewn unedau sy'n cynnwys unrhyw nifer o adar), yr opsiynau allweddol a gynigir yn yr asesiad de minimis cam ymgynghori cysylltiedig yw:

- Opsiwn 1 - gwaharddiad yn 2027 ar osod cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi newydd ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio, gan arwain at waharddiad yn 2032 ar gynhyrchiant wyau cewyll 'nythfa' wedi'u

[4] Disgrifir cewyll 'nythfa’ wedi’u cyfoethogi yn The Welfare of Farmed Animals (England) Regulations 2007 (legislation.gov.uk) a deddfwriaeth gyfatebol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
[5]Defnyddir y term 'cywennod' i ddisgrifio adar yn ystod eu cyfnod magu ac ar adeg eu trosglwyddo i'r cwt dodwy pan nad oes wyau wedi cael eu dodwy gan yr haid. Cyn gynted ag y bydd yr wy cyntaf wedi'i ddodwy gan aelod o’r haid, mae'n dod yn haid ieir dodwy.

cyfoethogi ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio. **Dyma'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan ein bod o'r farn ei fod yn cydbwyso gwelliannau mewn lles adar yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn sicrhau cynaliadwyedd i sector ieir dodwy'r DU.**

- Opsiwn 2 - gwaharddiad yn 2027 ar osod cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi newydd ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio, gan arwain at waharddiad yn 2037 ar gynhyrchiant wyau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio.
- Opsiwn 3 - gwaharddiad yn 2030 ar osod cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi newydd ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio, gan arwain at waharddiad yn 2034 ar gynhyrchiant wyau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio.
- Opsiwn 4 - gwaharddiad llwyr ar gynhyrchiant wyau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio yn 2030.

Mae opsiynau 1- 4 hefyd yn cynnwys gwahardd cewyll 'batri' confensiynol ar gyfer unedau ieir dodwy gyda llai na 350 o adar o 2027 ymlaen, sydd ar hyn o bryd wedi'u heithrio o'r gwaharddiad ar gewyll 'batri' confensiynol. Byddai hyn yn arwain at wahardd pob cawell ar draws y sector ieir dodwy cyfan, gan gynnwys cynhyrchwyr masnachol ar raddfa fach a phobl sy'n cadw ieir fel hobi.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar y cynnig polisi sy'n cael ei ffafrio - Opsiwn 1.

Mae'r ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar effaith y cynnig ar les ieir dodwy, cywennod ac ieir bridio; y diwydiant ieir dodwy; defnyddwyr; yr amgylchedd a masnach. Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i bennu polisi'r llywodraeth yn y maes hwn.

## Cwmpas

Byddai'r cynnig polisi hwn yn gwahardd defnyddio pob cawell ar gyfer ieir dodwy, cywennod ac ieir bridio ar draws y sector ieir dodwy cyfan; gan gynnwys unedau ieir dodwy gyda llai na 350 o adar.

Mae lles anifeiliaid yn gyfrifoldeb polisi datganoledig. Mae'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Cynulleidfa

Gall unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r rhai a allai fod â diddordeb yn cynnwys:

- sefydliadau academaidd
- sefydliadau lles anifeiliaid
- defnyddwyr
- cwmnïau pacio wyau
- cwmnïau prosesu wyau
- cynhyrchwyr wyau

- cynlluniau gwarant fferm
- sefydliadau ffermio
- gwneuthurwyr bwyd
- gwasanaethau bwyd (e.e. bwytai, caffis, gwasanaethau arlwyo, ysgolion, ysbytai, ffreuturiau)
- cwmnïau geneteg
- bridwyr ieir dodwy
- awdurdodau lleol (ALlau)
- magwyr cywennod
- manwerthwyr (e.e. archfarchnadoedd, siopau bwyd, siopau cyfleustra, manwerthwyr bwyd ar-lein)
- cyrff masnach
- y proffesiwn milfeddygol

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 12 January 2026, ac yn dod i ben ar 9 March 2026. Ni fydd ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi.

Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn drwy ddefnyddio hwb ymgynghori Citizen Space. Os nad ydych chi'n gallu defnyddio Citizen Space, gallwch lawrlwytho'r dogfennau ymgynghori, a dychwelyd eich ymateb drwy anfon neges e-bost at Laying-Hen-Cage-Reform@defra.gov.uk neu drwy'r post at y cyfeiriad canlynol:

> Laying Hen Cage Consultation, Farm Animal Welfare Team, Department for Environment, Food and Rural Affairs, Seacole Building 2nd Floor, 2 Marsham Street, London, SW1P 4DF.

Sylwch, **rhaid** i unrhyw ymatebion sy'n cael eu hanfon drwy'r post gyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad (9 March 2026) er mwyn cael eu cyfrif. Efallai na fydd ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi. Er mwyn sicrhau bod eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb yn electronig, naill ai ar-lein drwy Citizen Space neu drwy e-bost. Rydym yn cydnabod y gall ymatebwyr ddewis defnyddio rhywfaint o destun safonol ar gyfer eu hymateb. Ymgyrchoedd yw pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion ar draws eu haelodau neu eu cefnogwyr, yn aml drwy awgrymu geiriad penodol i ymatebwyr ei ddefnyddio. Mae ymatebion ymgyrchu fel arfer yn debyg iawn neu'n union yr un fath â'i gilydd. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gellir dadansoddi ymatebion ymgyrchu ar wahân i ymatebion eraill i sicrhau bod modd crynhoi ehangder y safbwyntiau a gafwyd yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yr holl ymatebion ymgyrchu yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad terfynol o farn y cyhoedd ac mae ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad o gryfder y teimlad ar fater. Y llwybr sy'n cael ei ffafrio i'r holl ymatebwyr roi eu barn (gan gynnwys lle mae ymateb yn seiliedig ar ymgyrch) yw drwy hwb Citizen Space.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ar ôl i ffenestr yr ymgynghoriad gau. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau neu sefydliadau a ymatebodd, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio ag Egwyddorion Ymgynghori Llywodraeth y DU. **Sylwch fod cyfnod ymgynghori o 8 wythnos yn berthnasol.** Mae rhagor o wybodaeth am Egwyddorion Ymgynghori Llywodraeth y DU ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance.

# Rhan 2 – Yr Ymgynghoriad

## Y Cynnig:

Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi ymrwymo i wella lles ieir dodwy, cywennod ac ieir bridio drwy fynd i'r afael â'r mater o gaethiwed, er mwyn i adar gael y rhyddid i ymddwyn yn naturiol. Rydym yn cynnig gwahardd cynhyrchu cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ar gyfer ieir dodwy ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio, a'r cewyll 'batri' confensiynol sy'n weddill ar gyfer unedau ieir dodwy gyda llai na 350 o adar. Dim ond tri safle cofrestredig sydd â llai na 350 o adar sy'n dal i ddefnyddio cewyll 'batri' confensiynol.

Yn ystod y degawd diwethaf, bu newid graddol yn y ffocws oddi wrth y cyhoedd a sefydliadau lles anifeiliaid tuag at systemau ffermio nad ydynt yn cyfyngu'n ormodol ar anifeiliaid. Canfu arolwg YouGov yn 2020 fod 88% o'r cyhoedd ym Mhrydain o'r farn bod defnyddio cewyll mewn ffermio yn greulon, a bod 77% o'r rhai a arolygwyd o blaid gwaharddiad llwyr ar ddefnyddio cewyll mewn ffermio. Yn ôl arolygon mwy diweddar, mae 94% o'r cyhoedd yn credu bod cadw ieir mewn cewyll wedi'u cyfoethogi yn annerbyniol. Yn 2019, arweiniodd deiseb 'End the Cage Age', a oedd yn galw ar Lywodraeth y DU i wahardd pob cawell ar gyfer anifeiliaid fferm, at dros 100,000 o lofnodion, gan sbarduno trafodaeth ym mis Mawrth 2020. Ym mis Awst 2021, dechreuwyd ail ddeiseb yn galw ar Lywodraeth y DU i ddeddfu 'End the Cage Age', gan gyrraedd digon o lofnodion i sbarduno trafodaeth arall ym mis Mehefin 2022. Unwaith eto, ym mis Chwefror 2025, lansiwyd trydedd deiseb i 'Roi terfyn ar ddefnyddio cewyll a chratiau ar gyfer pob anifail fferm', gan gyrraedd dros 100,000 o lofnodion ym mis Ebrill 2025, a chafodd ei thrafod ym mis Mehefin 2025.

Lansiwyd Menter Dinasyddion Ewropeaidd 'End the Cage Age' debyg ar draws Ewrop, ac fe'i cefnogwyd gan dros filiwn o ddinasyddion ledled yr UE yn 2018. Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Comisiwn yr UE Gais am Dystiolaeth ar ei fenter i foderneiddio deddfwriaeth yr UE, gan gynnwys diddymu cewyll yn raddol, a ddaeth i ben ar 16 Gorffennaf. Ers hynny, mae'r Comisiwn wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar les ar ffermydd, gan gynnwys diddymu'r defnydd o gewyll yn raddol, gyda'r bwriad o gyhoeddi'r cynigion deddfwriaethol cyntaf ar ddiwygio cewyll yn 2026. Yn yr UE, mae Lwcsembwrg ac Awstria eisoes wedi gwahardd pob cawell ar gyfer ieir dodwy, ac mae Sweden wedi cyhoeddi nad ydynt yn caniatáu cewyll erbyn hyn, er nad ydynt wedi cyflwyno gwaharddiad deddfwriaethol swyddogol. Yn ogystal, mae Tsiecia, Slofacia, Slofenia, Ffrainc, Denmarc a'r Almaen naill ai wedi gwahardd gosod cewyll newydd a/neu eisoes yn diddymu'r cewyll presennol yn raddol.

Mae'r galw gan ddefnyddwyr am systemau ieir dodwy nad ydynt yn cyfyngu ar yr adar yn cael ei adlewyrchu yn y rhaniad yn y farchnad o ran y dull cynhyrchu yn y DU. Yn nhrydydd chwarter 2025, roedd wyau plisgyn a gynhyrchwyd gan ieir mewn systemau 'nythfa' wedi'u cyfoethogi yn cyfrif am 17% o gyfanswm y trwybwn, gydag wyau maes yn cyfrif am 71% o'r cyfanswm. Yn 2024, roedd wyau maes yn cyfrif am 68% o'r trwybwn pacio wyau blynyddol.

Yn 2016, o ganlyniad i'r newid graddol hwn tuag at beidio â chynhyrchu wyau cewyll, addawodd yr holl brif archfarchnadoedd y byddent yn rhoi'r gorau i werthu wyau plisgyn ieir a gedwir mewn cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi erbyn 2025, ac mae rhai eisoes wedi gwneud hynny. Ar ben hynny, mae rhai manwerthwyr wedi ymestyn addewid 2025 i'r wyau sy'n cael eu defnyddio yn eu cynnyrch wedi'i brosesu, fel powdr neu wy hylif. Yn 2016, roedd 41% o wyau yn y sector manwerthu yn dod o ieir dodwy mewn cewyll. Roedd hyn wedi gostwng i 21% yn 2024 ac mae wedi parhau i ostwng yn 2025. Er bod addewid y manwerthwyr i'w groesawu, ni fydd, ar ei ben ei hun, yn codi safonau lles ar draws y diwydiant ieir dodwy yn ei gyfanrwydd. Mae angen i'r Llywodraeth ymyrryd er mwyn mynd i'r afael â lles ieir dodwy sy'n cynhyrchu wyau ar gyfer y manwerthwyr hynny nad ydynt wedi llofnodi'r addewid, ac er mwyn i'r diwydiant gwasanaeth bwyd a'r marchnadoedd prosesu wyau sicrhau gwaharddiad llwyr.

Rydym nawr yn gofyn am farn ar ein cynnig polisi i roi terfyn ar gynhyrchu wyau mewn cewyll yn y DU. Nod y cynnig yw gwella safonau lles anifeiliaid mewn ffordd sydd hefyd yn gynaliadwy ac yn economaidd hyfyw i ddiwydiant wyau'r DU.

Ar ôl ystyried nifer o opsiynau polisi posibl yn fanwl, sy'n cael eu disgrifio yn asesiad de minimis cysylltiedig y cam ymgynghori, Opsiwn 1 yw'r opsiwn polisi rydym ni'n ei ffafrio. Mae'r opsiwn hwn yn ceisio cyflawni'r amcan polisi drwy gydbwyso gwelliannau o ran lles ieir dodwy a chywennod, ar yr un pryd â sicrhau cynaliadwyedd i gynhyrchwyr ieir dodwy a magwyr cywennod yn y DU. Nod y cyfnod pontio 5 mlynedd yw rhoi digon o amser i gynhyrchwyr wyau symud i systemau di-gawell yn y DU, er mwyn diddymu’r defnydd o gewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio yn raddol.

Byddai'r cynnig hefyd yn gwahardd unrhyw gewyll 'batri' confensiynol sy'n dal i gael eu defnyddio ar gyfer unedau ieir dodwy gyda llai na 350 o adar. Byddai hyn yn arwain at wahardd pob cawell ar draws y sector ieir dodwy cyfan, gan gynnwys cynhyrchwyr masnachol ar raddfa fach a phobl sy'n cadw ieir fel hobi.

<u>Y cynnig polisi yw gwahardd defnyddio pob cawell ar draws y sector ieir dodwy cyfan, a'r opsiwn polisi sy'n cael ei ffafrio yw'r dull gweithredu fesul cam canlynol:</u>

- O 2027 ymlaen, gwahardd adeiladu neu roi ar waith am y tro cyntaf unrhyw gewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ar gyfer cadw ieir dodwy (gan gynnwys y rheini mewn sefydliadau sydd â llai na 350 o adar) ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio;
- O 2027 ymlaen, gwaharddiad ar ddefnyddio cewyll 'batri' confensiynol presennol ar gyfer cadw ieir dodwy mewn sefydliadau sydd â llai na 350 o adar; ac
- O 2032 ymlaen, gwaharddiad ar ddefnyddio cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ar gyfer cadw ieir dodwy (gan gynnwys y rheini mewn sefydliadau sydd â llai na 350 o adar) ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio.

## Effaith y cynnig

Mae asesiad de minimis cam ymgynghori yn cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori hon. Mae wedi cael ei baratoi i fesur yr effeithiau posibl ar fusnesau o ganlyniad i'r cynnig i gyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth lles anifeiliaid fferm i wahardd defnyddio cewyll ar gyfer ieir dodwy, cywennod ac ieir bridio.

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Cyfrinachedd a Diogelu Data

### Trefn gwyno

Dylid cyflwyno pob cwyn am y broses ymgynghori i'r Cydlynydd Ymgynghori drwy e-bost: consultation.coordinator@defra.gov.uk. Er mwyn bodloni safon gwasanaeth DEFRA, ymatebir i bob cwyn o fewn 15 diwrnod i'w derbyn.

### Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn yr hysbysiad preifatrwydd ymarfer ymgynghori a galw am dystiolaeth, gyda'r newidiadau canlynol:

a. **Gyda phwy ydym ni'n rhannu eich data personol?**
   Mae'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac felly bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei rhannu â swyddogion polisi perthnasol yn Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

### Gwybodaeth arall

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet.

## Amdanoch chi neu eich sefydliad

**1.a) Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol (gofynnol)?**

- ☐ Hoffwn
- ☐ Na

**1.b) Os mai 'Hoffwn' oedd eich ateb i'r cwestiwn hwn, nodwch eich rheswm/rhesymau.**
[Multiple line answer component]

**2. Beth yw eich enw?**
[Single line answer component]

**3. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?**
[Email address answer component]

**4. Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu sefydliad (gofynnol)?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ Unigolyn - Rydych chi'n ymateb gyda'ch barn bersonol, yn hytrach nag fel cynrychiolydd swyddogol busnes, cymdeithas fusnes neu sefydliad arall.
- ☐ Sefydliad - Rydych yn ymateb yn swyddogol fel cynrychiolydd busnes, cymdeithas fusnes neu sefydliad arall.

**5. Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, ble ydych chi wedi'ch lleoli/os ydych chi'n ymateb fel sefydliad yng Nghwestiwn 4, ble mae pencadlys eich sefydliad wedi'i leoli (gofynnol)?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ Lloegr
- ☐ Cymru
- ☐ Yr Alban
- ☐ Gogledd Iwerddon
- ☐ Nid yn y DU (Ewrop)
- ☐ Y tu allan i Ewrop

**6. Os ydych chi'n ymateb fel sefydliad yng Nghwestiwn 4, beth yw enw eich sefydliad?**

[Single line answer component]

**7. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch rôl orau? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**

- ☐ Academydd
- ☐ Sefydliad lles anifeiliaid
- ☐ Defnyddiwr
- ☐ Paciwr wyau
- ☐ Cwmni prosesu wyau
- ☐ Cynhyrchydd wyau
- ☐ Cynllun gwarant fferm
- ☐ Sefydliad ffermio
- ☐ Gwneuthurwr bwyd
- ☐ Gwasanaeth bwyd (e.e. bwyty, caffi, gwasanaeth arlwyo, ysgol, ysbyty, ffreutur)
- ☐ Cwmni geneteg
- ☐ Bridiwr ieir dodwy
- ☐ Awdurdod Lleol (ALl)
- ☐ Magwr cywennod
- ☐ Manwerthwr (e.e. archfarchnad, siop fwyd, siop gyfleustra, manwerthwr bwyd ar-lein)
- ☐ Corff masnach
- ☐ Milfeddyg

- ☐ Arall - rhowch fanylion isod

[Single line answer component]

## Lles anifeiliaid

Ein nod yw gwella lles ieir dodwy, cywennod ac ieir bridio, ac mae'r cynnig polisi yn ceisio cyflawni hyn drwy leihau caethiwo adar a sicrhau bod eu hanghenion ymddygiad yn cael eu diwallu'n well mewn systemau di-gawell.

**8. Ydych chi'n credu bod canlyniadau lles cadarnhaol yn sgil gwahardd defnyddio cewyll ar gyfer ieir dodwy (gan gynnwys cywennod ac ieir bridio)? Os oes, beth ydyn nhw? Dewiswch bob un sy'n berthnasol a gadewch yn wag os nad oes un yn berthnasol.**

- ☐ Gwell llesiant corfforol
- ☐ Mynegiant gwell o ymddygiad naturiol
- ☐ Mwy o ddewis o ran symud a'r amgylchedd
- ☐ Gwell llesiant meddyliol
- ☐ Arall - rhowch fanylion isod

[Multiple line answer component]

**9. Ydych chi'n credu bod canlyniadau lles negyddol yn sgil gwahardd defnyddio cewyll ar gyfer ieir dodwy (gan gynnwys cywennod ac ieir bridio)? Os oes, beth ydyn nhw? Dewiswch bob un sy'n berthnasol a gadewch yn wag os nad oes un yn berthnasol.**

- ☐ Risg uwch o fygu
- ☐ Risg uwch o anaf (gan gynnwys pigo niweidiol)
- ☐ Risg uwch o salwch a chlefydau
- ☐ Risg uwch o farwolaeth (gan gynnwys ysglyfaethu)
- ☐ Arall - rhowch fanylion isod

[Multiple line answer component]

**10. Pa ymyriadau a allai sicrhau'r canlyniadau lles mwyaf cadarnhaol a lliniaru canlyniadau lles negyddol?**

[Multiple line answer component]

## Cynnig polisi

**Nodwch i ba lefel rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:**

**11.a) Ar 1 Ionawr 2027, dylid gwahardd gosod cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio ar draws y sector ieir dodwy (ieir dodwy, cywennod ac ieir bridio).** [Radio button to select only one answer]

- Cytuno
- Anghytuno, mae'n rhy gynnar
- Anghytuno, dydw i ddim yn cytuno â gwaharddiad
- Ddim yn siŵr

**11.b) Esboniwch eich ateb.**
[Multiple line answer component]

**12.a) Mae cyfnod pontio o 5 mlynedd, i ddechrau gyda gwaharddiad ar osod cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio newydd ar 1 Ionawr 2027, ac yna gwaharddiad llwyr ar gewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ac unrhyw systemau cewyll eraill a ddefnyddir ar gyfer cywennod ac ieir bridio ar 1 Ionawr 2032, yn briodol.** [Radio button to select only one answer]

- Cytuno
- Anghytuno, mae'n rhy hir
- Anghytuno, mae'n rhy fyr
- Anghytuno, dydw i ddim yn cytuno â gwaharddiad
- Ddim yn siŵr

**12.b) Esboniwch eich ateb.**
[Multiple line answer component]

**13.a) Mae gwaharddiad ar gewyll 'batri' confensiynol ar 1 Ionawr 2027 ar gyfer unedau masnachol llai, neu berchnogion ieir hobi, gyda llai na 350 o ieir dodwy yn briodol.** [Radio button to select only one answer]

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn siŵr

**13.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

**14.a) Beth yw'r rhwystrau rhag symud yn llawn i systemau di-gawell? Rhowch y categorïau isod mewn trefn. Rhif 1 yw'r pwysicaf.** [Ranked question component]
- Ariannol
- Technegol (e.e. hyfforddiant, ymgynghori)
- Gweithredol (e.e. logisteg, cynllunio, contractau)

**14.b) A oes unrhyw rwystrau eraill y dylid eu hystyried?**

[Multiple line answer component]

# Cwestiynau dadansoddol

## Effeithiau ar gynhyrchwyr wyau ieir dodwy a magwyr cywennod

**15. Ydych chi'n gynhyrchydd wyau ieir dodwy ar hyn o bryd (gan gynnwys cynhyrchwyr masnachol ar raddfa lai sy'n cadw llai na 350 o ieir dodwy) neu'n fagwr cywennod, neu'n cynrychioli cynhyrchwyr wyau ieir dodwy neu fagwyr cywennod?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw [ymlaen i'r adran eithriadau]

**16. Beth yw maint eich haid (nifer yr ieir)?**

[Number answer component]

### Cynhyrchwyr wyau

**17. Ydych chi'n gynhyrchydd wyau ar hyn o bryd (gan gynnwys cynhyrchwyr masnachol ar raddfa lai sy'n cadw llai na 350 o ieir dodwy) neu'n cynrychioli cynhyrchwyr wyau?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw [ymlaen i'r adran magwyr cywennod]

Mae asesiad de minimis cysylltiedig y cam ymgynghori yn amcangyfrif costau cynhyrchu ychwanegol[6] (ac eithrio llety, ond gan gynnwys bwyd anifeiliaid, gwasarn, defnydd ynni a chostau llafur) fesul wy ar gyfer gwahanol systemau cynhyrchu:

| | Wyau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi | Wyau ysgubor | Wyau maes |
|---|---|---|---|
| **Cost cynhyrchu (ac eithrio llety*) pob wy mewn ceiniogau** | 5.8 | 7 | 8 |

*Cafodd costau llety ac offer eu hepgor er mwyn atal cyfrif ddwywaith gan fod y costau hyn wedi'u cynnwys yn y costau cyfalaf.

[6] Tudalen 22 o asesiad de minimis y cam ymgynghori

**18.a) Beth yw eich barn am y bras amcan o gostau cynhyrchu yn asesiad de minimis cysylltiedig y cam ymgynghori?** [Radio button to select only one answer]

- Cytuno â'r bras amcan
- Anghytuno â'r bras amcan
- Ddim yn siŵr

**18.b) Os ateboch chi 'anghytuno â'r bras amcan', esboniwch eich ateb a rhowch unrhyw dystiolaeth y gallwch chi i gefnogi eich barn.**

- [Multiple line answer component]

**Cynhyrchwyr wyau cewyll**

**19. Fel cynhyrchydd wyau neu gynrychiolydd cynhyrchwyr wyau, ydych chi'n defnyddio unrhyw systemau cynhyrchu wyau cewyll (gan gynnwys cynhyrchwyr masnachol ar raddfa lai sy'n cadw llai na 350 o ieir dodwy)?** [Radio button to select only one answer]

- Ydw
- Nac ydw [ymlaen i'r adran ar gyfer cynhyrchwyr nad ydynt yn defnyddio cewyll]

**20. Pa system(au) cynhyrchu wyau cewyll ydych chi'n eu defnyddio heddiw? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**

- System gawell 'batri' gonfensiynol
- System gawell 'nythfa' wedi'i chyfoethogi
- Arall - rhowch fanylion isod

[Multiple line answer component]

**21.a) Yn absenoldeb gwaharddiad, ydych chi'n bwriadu newid i system ddi-gawell, ac os felly, pa system?** [Radio button to select only one answer]

- Nac ydw, nid ydw i’n bwriadu newid
- System ysgubor
- System maes
- System organig
- System amgen ddi-gawell (e.e. Kipster/Rondeel)

**21.b) Os ydych chi'n bwriadu newid o gynhyrchu wyau cewyll i gynhyrchu wyau di-gawell, pryd ydych chi'n bwriadu newid?** [Radio button to select only one answer]

- O fewn yr 1 i 2 flynedd nesaf
- O fewn y 3 i 5 mlynedd nesaf
- O fewn y 6 i 8 mlynedd nesaf
- O fewn y 9 i 12 mlynedd nesaf
- Heb ei ystyried

**22.a) Pe bai gwaharddiad ar gewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi, i ba system gynhyrchu fyddech chi'n trosglwyddo?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ System ysgubor
- ☐ System maes
- ☐ System organig
- ☐ System amgen ddi-gawell (e.e. Kipster/Rondeel)
- ☐ Gadael y diwydiant
- ☐ Ddim yn siŵr

**22.b) Os ateboch chi 'Gadael y diwydiant', pa mor hir (mewn blynyddoedd) fyddech chi'n disgwyl i'r newid hwn ei gymryd?**
[Number answer component]

**23. Pe baech chi'n newid i system ddi-gawell, a fyddech chi'n:** [Radio button to select only one answer]

- ☐ Adnewyddu adeilad presennol (llai o gapasiti)
- ☐ Ailosod adeilad presennol (yr un ôl troed, llai o gapasiti)
- ☐ Ailosod adeilad presennol (ôl troed mwy, yr un capasiti)
- ☐ Ailosod adeilad presennol (ôl troed mwy, mwy o gapasiti)
- ☐ Estyn adeilad presennol (ôl troed mwy, mwy o gapasiti)

Mae asesiad de minimis cysylltiedig y cam ymgynghori yn amcangyfrif y costau cyfalaf cyfartalog canlynol[7] o droi system gynhyrchu wyau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi yn system gynhyrchu wyau ysgubor ac wyau maes. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi cael eu llywio gan wybodaeth a rannwyd gan y diwydiant:

i) **£42 ar gyfer pob gofod iâr** ar gyfer adeiladau cynhyrchu wyau ysgubor ac wyau maes **newydd**.

   Mae'r gost hon yn cynnwys:
   - Y gost cyfalaf ymlaen llaw o osod adeilad **newydd**
   - Offer priodol (megis systemau awyru, systemau bwydo a chlwydi)
   - Prynu/rhentu unrhyw dir sydd ei angen

ii) **£19 ar gyfer pob gofod iâr** i **drosi capasiti presennol** o system gynhyrchu wyau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi i gynhyrchu wyau ysgubor ac wyau maes.

---

[7] Tudalen 21 o asesiad de minimis y cam ymgynghori

Mae'r amcangyfrif o gostau cyfalaf o **drosi** o system gynhyrchu wyau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi yn llai na chostau adeiladu systemau cynhyrchu wyau ysgubor newydd a systemau cynhyrchu wyau maes cyfatebol, oherwydd tybir y gallai strwythur yr adeilad aros. Serch hynny, byddai'n dal yn rhaid talu i dynnu a gwaredu'r cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi a gosod offer newydd ar gyfer systemau di-gawell (fel systemau awyru, systemau bwydo a chlwydi) lle bo angen.

**24. Os ydych chi'n credu bod yr amcangyfrif o £42 yn anghywir, rhowch amcangyfrif o gost adeiladu system/systemau llety newydd. Llenwch y tabl ar gyfer y systemau llety rydych chi'n bwriadu eu gweithredu drwy ysgrifennu eich atebion wrth ymyl y llythrennau cyfatebol.**

| | System maes | System ysgubor | System organig | System amgen ddi-gawell (e.e. Kipster/Rondeel) |
|---|---|---|---|---|
| **Cost/amcangyfrif o'r gost i adeiladu llety newydd** | £ a / iâr | £ b / iâr | £ c / iâr | £ d / iâr |

**a)** [Number answer component]
**b)** [Number answer component]
**c)** [Number answer component]
**d)** [Number answer component]

**25. Os ydych chi'n credu bod yr amcangyfrif o £19 yn anghywir, rhowch amcangyfrif o'r gost o drosi, fesul iâr ddodwy. Llenwch y tabl ar gyfer y systemau llety rydych chi'n bwriadu eu gweithredu drwy ysgrifennu eich atebion wrth ymyl y llythrennau cyfatebol.**

| | System maes | System ysgubor | System organig | System amgen ddi-gawell (e.e. Kipster/Rondeel) |
|---|---|---|---|---|
| **Cost/amcangyfrif o'r gost o drosi llety presennol** | £ a / iâr | £ b / iâr | £ c / iâr | £ d / iâr |

**a)** [Number answer component]
**b)** [Number answer component]
**c)** [Number answer component]
**d)** [Number answer component]

**26. Amcangyfrifwch faint o amser byddai'r gwaith adeiladu'n ei gymryd i drosi o system gawell i system ddi-gawell.** [Radio button to select only one answer]

-  1 i 2 mis
-  3 i 4 mis
-  5 i 6 mis
-  Mwy na 6 mis - rhowch fanylion isod mewn misoedd

[Number answer component]

**27.a) Yn eich barn chi, pa fath o hyfforddiant fyddai ei angen ar geidwaid sy'n gweithio gyda systemau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ar hyn o bryd i reoli system ddi-gawell yn effeithiol?** [Radio button to select only one answer]

-  Hyfforddiant ar y fferm
-  Hyfforddiant dan gontract (h.y. wedi'i drefnu'n allanol)
-  Nid oes angen unrhyw hyfforddiant ychwanegol

**27.b) Beth yw cost debygol yr hyfforddiant hwn fesul person? Rhowch eich ateb mewn £.**

-  [Number answer component]

**27.c) Faint o bobl fyddai angen hyfforddiant ar bob fferm?**

-  [Number answer component]

**28.a) Yn eich barn chi, a fyddai angen i geidwaid sy'n gweithio gyda systemau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi ar hyn o bryd gyflogi mwy o staff er mwyn gallu rheoli system ddi-gawell?** [Radio button to select only one answer]

-  Byddai
-  Na
-  Ddim yn siŵr

**28.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

**Cynhyrchwyr wyau di-gawell**

**29. Fel cynhyrchydd wyau neu gynrychiolydd cynhyrchwyr wyau, ydych chi'n defnyddio unrhyw systemau cynhyrchu wyau di-gawell (gan gynnwys**

**cynhyrchwyr masnachol ar raddfa lai sy'n cadw llai na 350 o ieir dodwy)?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ Ydw
- ☐ Na [ymlaen i'r adran magwyr cywennod]

**30. Pa system(au) cynhyrchu wyau di-gawell ydych chi'n eu defnyddio heddiw? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**

- ☐ System ysgubor
- ☐ System maes
- ☐ System organig
- ☐ System amgen ddi-gawell (e.e. Kipster/Rondeel)
- ☐ Arall - rhowch fanylion isod

[Multiple line answer component]

Mae asesiad de minimis cysylltiedig y cam ymgynghori yn amcangyfrif y costau cyfalaf cyfartalog canlynol[8] o droi system gynhyrchu wyau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi yn system gynhyrchu wyau ysgubor ac wyau maes. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi cael eu llywio gan wybodaeth a rannwyd gan y diwydiant:

i) **£42 ar gyfer pob gofod iâr** ar gyfer adeiladau cynhyrchu wyau ysgubor ac wyau maes **newydd**.

Mae'r gost hon yn cynnwys:

- Y gost cyfalaf ymlaen llaw o osod adeilad **newydd**
- Offer priodol (megis systemau awyru, systemau bwydo a chlwydi)
- Prynu/rhentu unrhyw dir sydd ei angen

ii) **£19 ar gyfer pob gofod iâr** i **drosi capasiti presennol** o system gynhyrchu wyau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi i gynhyrchu wyau ysgubor ac wyau maes.

Mae'r amcangyfrif o gostau cyfalaf o **drosi** o system gynhyrchu wyau cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi yn llai na chostau adeiladu systemau cynhyrchu wyau ysgubor newydd a systemau cynhyrchu wyau maes cyfatebol, oherwydd tybir y gallai strwythur yr adeilad aros. Serch hynny, byddai'n dal yn rhaid talu i dynnu a gwaredu'r cewyll 'nythfa' wedi'u cyfoethogi a gosod offer newydd ar gyfer systemau di-gawell (fel systemau awyru, systemau bwydo a chlwydi) lle bo angen.

[8] Tudalen 21 o asesiad de minimis y cam ymgynghori

**31. Os ydych chi'n credu bod yr amcangyfrif o £42 yn anghywir, rhowch amcangyfrif o gost adeiladu system/systemau llety newydd. Llenwch y tabl ar gyfer y systemau llety rydych chi'n bwriadu eu gweithredu drwy ysgrifennu eich atebion wrth ymyl y llythrennau cyfatebol.**

| | System maes | System ysgubor | System organig | System amgen ddi-gawell (e.e. Kipster/Rondeel) |
|---|---|---|---|---|
| **Cost/amcangyfrif o'r gost i adeiladu llety newydd** | £ a / iâr | £ b / iâr | £ c / iâr | £ d / iâr |

- **a)** [Number answer component]
- **b)** [Number answer component]
- **c)** [Number answer component]
- **d)** [Number answer component]

**32. Os ydych chi'n credu bod yr amcangyfrif o £19 yn anghywir, rhowch amcangyfrif o'r gost o drosi, fesul iâr ddodwy. Llenwch y tabl ar gyfer y systemau llety rydych chi'n bwriadu eu gweithredu drwy ysgrifennu eich atebion wrth ymyl y llythrennau cyfatebol.**

| | System maes | System ysgubor | System organig | System amgen ddi-gawell (e.e. Kipster/Rondeel) |
|---|---|---|---|---|
| **Cost/amcangyfrif o'r gost o drosi llety presennol** | £ a / iâr | £ b / iâr | £ c / iâr | £ d / iâr |

- **a)** [Number answer component]
- **b)** [Number answer component]
- **c)** [Number answer component]
- **d)** [Number answer component]

**33. A wnaethoch chi newid i system ddi-gawell o system gawell?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ Do
- ☐ Naddo [ymlaen i'r adran magwyr cywennod]

**34. Pryd wnaethoch chi'r newid?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ O fewn yr 1 i 2 flynedd ddiwethaf

- O fewn y 3 i 5 mlynedd ddiwethaf
- O fewn y 6 i 8 mlynedd ddiwethaf
- O fewn y 9 i 12 mlynedd ddiwethaf

**35. O ba system gynhyrchu y gwnaethoch chi newid?** [Radio button to select only one answer]

- System gawell 'batri' confensiynol
- System gawell 'nythfa' wedi'i chyfoethogi
- Arall - rhowch fanylion isod

[Multiple line answer component]

**36.a) Pan wnaethoch chi newid i system ddi-gawell, a wnaethoch chi:** [Radio button to select only one answer]

- Adnewyddu adeilad presennol (llai o gapasiti)
- Ailosod adeilad presennol (yr un ôl troed, llai o gapasiti)
- Ailosod adeilad presennol (ôl troed mwy, yr un capasiti)
- Ailosod adeilad presennol (ôl troed mwy, mwy o gapasiti)
- Estyn adeilad presennol (ôl troed mwy, mwy o gapasiti)

**36.b) Eglurwch pam eich bod wedi dewis newid fel hyn.**
[Multiple line answer component]

**37. Faint o amser y gwnaeth hi gymryd i drosi o system gawell i system ddi-gawell?**
[Radio button to select only one answer]

- 1 i 2 mis
- 3 i 4 mis
- 5 i 6 mis
- Mwy na 6 mis - rhowch fanylion isod mewn misoedd

[Number answer component]

**38. Os gallwch chi, rhowch syniad neu amcangyfrif o faint o amser a gymerodd i gael caniatâd cynllunio:** [Radio button to select only one answer]

- 1 i 2 mis
- 3 i 6 mis
- 7 i 12 mis
- 13 i 18 mis
- Mwy na 18 mis

**39.a) Pa fath o hyfforddiant oedd ei angen i newid o weithio gyda system gawell, i reoli system ddi-gawell yn effeithiol? Dewiswch bob un sy’n berthnasol.**

- Hyfforddiant ar y fferm

- ☐ Hyfforddiant dan gontract (h.y. wedi'i drefnu'n allanol)
- ☐ Nid oes angen unrhyw hyfforddiant ychwanegol
- ☐ Arall - rhowch fanylion

[Multiple line answer component]

**39.b) Beth oedd cost yr hyfforddiant hwn, fesul person? Rhowch eich ateb mewn £.**
[Number answer component]

**40.a) Faint o staff, os o gwbl, ydych chi'n eu cyflogi i allu rheoli system ddi-gawell?**
[Number answer component]

**40.b) Esboniwch eich ateb.**
[Multiple line answer component]

**Magwyr cywennod**

**41. Ydych chi'n fagwr cywennod neu'n cynrychioli magwyr cywennod?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw [ymlaen i'r eithriadau]

**42. Amcangyfrifwch beth fyddai cost cyfalaf, fesul cywen, o drosi o system gawell i system ddi-gawell. Rhowch eich ateb mewn £.**
[Number answer component]

**43. Beth yw'r gwahaniaeth yn y gost cynhyrchu, fesul cywen, o fagu iâr mewn cawell o'i gymharu â system ddi-gawell? Nodwch ddadansoddiad o'r costau mewn £.**
[Multiple line answer component]

## Eithriadau

**44.a) A ddylid cael eithriad ar gyfer yr adardai magu aml-haen lle mae cywion yn cael eu cadw mewn system gawell am y pythefnos cyntaf yn unig?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ Dylid
- ☐ Na ddylid
- ☐ Ddim yn siŵr

**44.b) Esboniwch eich ateb.**
[Multiple line answer component]

**45.a) A ddylid cael unrhyw eithriad at ddibenion eraill?** [Radio button to select only one answer]

- Dylid
- Na ddylid
- Ddim yn siŵr

**45.b) Esboniwch eich ateb.**
[Multiple line answer component]

## Masnach

Mae'r DU yn arwain y byd o ran safonau lles anifeiliaid, ac mae'r llywodraeth yn falch o'r safonau lles anifeiliaid uchel sy'n sail i'n cynnyrch o ansawdd uchel. Mae enw da'r DU am gynnyrch o ansawdd uchel yn sbarduno'r galw am nwyddau o'r DU ac rydym am wella ac adeiladu ar y record honno, gan weithio mewn partneriaeth â ffermwyr i sicrhau llesiant gwell ac anifeiliaid iachach.

**46.a) Ydych chi'n meddwl y byddai cyflwyno gwaharddiad domestig ar gewyll i ieir dodwy, cywennod ac ieir bridio yn cynyddu faint o wyau plisgyn a chynhyrchion wyau sy'n cael eu mewnforio i'r DU?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

**46.b) Esboniwch eich ateb.**
[Multiple line answer component]

**47.a) Ydych chi'n meddwl y byddai cyflwyno gwaharddiad domestig ar gewyll i ieir dodwy, cywennod ac ieir bridio yn cynyddu faint o wyau plisgyn a chynhyrchion wyau sy'n cael eu hallforio o'r DU?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

**47.b) Esboniwch eich ateb.**
[Multiple line answer component]

**48. Ydych chi'n fanwerthwr, yn brosesydd wyau, yn wneuthurwr bwyd neu'n gweithio ym maes gwasanaethau bwyd?** [Radio button to select only one answer]

- Ydw
- Nac ydw [ymlaen i'r adran sylwadau pellach]

**49.a) A yw eich cynnyrch yn cynnwys wyau neu gynhyrchion wyau ieir cewyll?**
[Radio button to select only one answer]

- Ydyn

- ☐ Nac ydyn

**49.b) Pa gyfran o'ch costau cynhyrchu y mae wyau cewyll yn ei chynrychioli? Rhowch eich ateb ar ffurf canran (%).**
[Number answer component]

**50.a) Ydych chi'n mewnforio wyau (plisgyn neu gynhwysyn) ar hyn o bryd?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

**50.b) A fyddwch chi'n dechrau mewnforio, neu'n mewnforio mwy o wyau (plisgyn neu gynhwysyn), os bydd gwaharddiad ar wyau cewyll?** [Radio button to select only one answer]

- ☐ Byddaf
- ☐ Na fyddaf
- ☐ Ddim yn siŵr

**50.c) Esboniwch eich ateb i gwestiwn 50.b).**
[Multiple line answer component]

## Sylwadau pellach

**51. Rhowch unrhyw sylwadau neu dystiolaeth am yr effeithiau amgylcheddol y gallai'r polisi arfaethedig eu cael.**
[Multiple line answer component]

**52. Rhowch unrhyw sylwadau neu dystiolaeth am yr effeithiau y gallai'r polisi arfaethedig eu cael ar gydraddoldeb.**
[Multiple line answer component]

**53. Rhowch unrhyw sylwadau neu dystiolaeth rydych chi'n teimlo y dylid eu hystyried ynghylch yr effaith economaidd-gymdeithasol y gallai'r polisi arfaethedig ei chael ar gynhyrchwyr a defnyddwyr. Esboniwch eich ateb.**
[Multiple line answer component]

**54. Rhowch unrhyw ystyriaethau pellach rydych chi'n teimlo y dylid eu nodi wrth ystyried y cynnig polisi hwn. Esboniwch eich ateb.**
[Multiple line answer component]